

**Cais am Gymorth Cyfradd Elusennol Gorfodol/Dewisol o dan
Adrannau 43 a 47 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988**

**(Darllenwch nodiadau canllaw Cymorth Cyfradd Elusennol Gorfodol a Chymorth
Cyfradd Dewisol cyn cwblhau'r ffurflen hon).** Os ydych chi'n parhau i gael
problemau wrth gwblhau'r ffurflen,
ffoniwch yr adran Trethi Busnes ar 01792 635937 / 8.

1. Enw'r sefydliad:
2. Ydy hwn yn:
- (a) Gais i fod yn gymwys am ostyngiad graddau gorfodol o 80% o dan A43(6) y Ddeddf uchod
- (b) Cais am Gymorth Cyfradd Dewisol o dan A47 y Ddeddf uchod
- (c) Cais am (a) a (b)

NODIADAU:

Yn ôl Adran 43(6), mae cymorth gorfodol 80% yn berthnasol lle mae'r trethdalwr yn elusen neu'n ymddiriedolwyr elusen a defnyddir yr hereditament* yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol (p'un ai'r elusen honno neu elusennau eraill).

Yn ôl Adran 47, gall cymorth dewisol fod yn berthnasol i'r canlynol:

- (a) Unrhyw hereditament sy'n dod o dan Adran 43(6) a ddyfynnwyd uchod, hyd at 20%, ar ben unrhyw gymorth gorfodol.
- (b) Unrhyw hereditament arall a ddefnyddir at ddibenion un neu fwy o sefydliadau, nad ydynt wedi'u sefydlu neu'n cael eu cynnal er elw, ac y mae eu prif amcanion yn elusennol, neu'n ddyngarol mewn ffordd arall, neu'n grefyddol, neu'n ymwneud ag addysg, lles cymdeithasol, gwyddoniaeth, llenyddiaeth neu'r celfyddydau cain, hyd at 100%.
- (c) Unrhyw hereditament arall a ddefnyddir at ddibenion clwb, cymdeithas neu sefydliad arall, nad yw wedi'i sefydlu neu'n cael ei gynnal er elw, ac a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion hamdden, hyd at 100%

Er mwyn i gymorth gorfodol neu ddewisol fod yn berthnasol i hereditamentau gwag, mae'n rhaid eu defnyddio at ddibenion elusennol y tro nesaf y cânt eu defnyddio.

*Adeilad neu eiddo arall yw hereditament.

3. Dyddiad y gofynnir i'r cymorth ddechrau:
4. Manylion am yr adeilad sy'n gwneud cais am gymorth:
- (a) Disgrifiad
- (b) Cyfeiriad:

(c) Cyfeirnod Cyfrif Trethi Busnes (os yw'n hysbys):

ch) At ba bwrpas mae'r adeilad yn cael ei ddefnyddio?

(d) Ydy aelodaeth yn agored i bob rhan o'r gymuned? √ X

(dd) A yw'r cyfleusterau a'r elw ar gael i bobl heblaw'r √
 X aelodau?

(e) A yw aelodaeth yn cael ei hannog o grwpiau lleiafrifol? √ X

(f) A yw'r sefydliad yn darparu hyfforddiant neu addysg? √ X

5. Statws elusennol:

(a) Ydy'r sefydliad yn elusen gofrestredig? √ X

(b) Os ydy, nodwch y rhif elusen gofrestredig:

(c) Os nac ydy, a oes cais wedi'i wneud ar gyfer cofrestru √ X
 o dan ddarpariaethau Deddf Elusennau 1960?

(d) Os honnir fod y sefydliad yn elusen, ond nid oes
 angen cofrestru, nodwch pam mae'r sefydliad yn
 eithriedig rhag cofrestru.

(dd) A yw'r sefydliad yn cael ei adnabod fel elusen at ddibenion treth? √ X

6. Darparwch y canlynol:

- (a) Copi o'r Weithred Ymddiriedolaeth neu brint o'r cyfansoddiad ysgrifenedig
- (b) Copi o'r cyfrifon diweddaraf
- (c) Datganiad o fanylion y gweithgareddau a'r gwaith a wneir yn yr adeilad.

7. Manylion Cyswllt

Rhowch enw a chyfeiriad yr ysgrifennydd
neu'r gohebydd:

8. **Rwy'n cadarnhau bod y datganiadau blaenorol yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:**

Llofnod: _____

Dyddiad: _____

Llofnodwyd yn rhinwedd fy swydd fel: _____

Wedi'i chwblhau, dylai'r ffurflen hon gael ei hargraffu a'i dychwelyd at:

Pennaeth Cyllid a Chyflwyno, Dinas a Sir Abertawe, Is-adran Trethi Busnes,
Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN.

Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon. Rydym yn casglu'r wybodaeth hon fel rhan o'n rhwymedigaeth o dan Adrannau 43 a 47 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 Bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio i'n helpu ni i gyflawni'n rhwymedigaeth gyfreithiol ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti oni bai fod y gyfraith yn gofyn neu'n caniatáu i ni wneud hynny.

Mae cyfraith diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data yn ôl yr angen er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol. Am fwy o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe'n defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel testun data, gweler ein hysbysiad preifatrwydd corfforaethol ar ein gwefan.